

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Hydref 2017

Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 11

Llwyddo: 4

Da oedd gweld pedwar ymgeisydd (h.y. rhyw un rhan o dair ohonynt) yn llwyddo i gynnal safon Aelodaeth Gyflawn ar hyd y ddau ddarn prawf yn y rownd hon, ac yn wir, roedd ambell un arall wedi llwyddo i gyrraedd y safon mewn un darn, er na fu llwyddiant i gynnal y safon honno ar hyd y papur. Rhaid cyfeirio'n arbennig at un ymgeisydd, oedd yn eithriadol o agos at y lan, ond a gyflwynodd sgript arholi lle roedd dwy frawddeg gyfan wedi'u hepgor o baragraff cyntaf yr ail ddarn. Er bod pawb ar y Bwrdd Arholi Testunau yn cydymdeimlo â'r rhai sy'n sefyll yr arholiad, ac yn medru maddau ambell wall sy'n amlwg wedi'i achosi gan nerfau, ni ellir caniatáu llithriad mor fawr â hwn, pa mor dda bynnag yw gweddill y gwaith. Rhaid cofio bod Aelodaeth Gyflawn yn drwydded i gyfieithu'n annibynnol, heb fod angen golygu'r gwaith gan neb arall, ac afraid dweud y gallai hepgor dwy frawddeg o unrhyw gyfieithiad arwain at ganlyniadau digon difrifol! Fel mor aml, felly, yr un anogaeth a geir yn y fan hon, sef darllen y gwaith yn drylwyr dros ben cyn ei gyflwyno, er mwyn osgoi gwallau o'r math hwn.

At ei gilydd, cafodd yr ymgeiswyr well hwyl ar yr ail ddarn na'r darn cyntaf, o bosib oherwydd bod y testun yn fwy cyfoes, ond eto, carwn bwysleisio bod disgwyl i ymgeiswyr am Aelodaeth Gyflawn felly ymdopi â darnau sydd y tu allan i gylch eu profiad arferol, gan mai cadernid eu gafael ar batrymau'r Gymraeg yw un o'r meini prawf pwysicaf.

Fel y disgwylid ar y lefel hon, cafwyd digon o enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, oedd yn mynegi ystyr y gwreiddiol yn effeithiol, e.e.:

But how will all that change now that Britain has voted to leave the European Union?

Ond sut y bydd hynny i gyd yn newid ar ôl i Brydain bleidleisio o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd?

Dig season was coming to a close
Roedd tymor y cloddio yn dirwyn i ben

...but a stunned silence descended when the first, vibrant colours of the mosaic poked through the broken dirt of the excavation site.

...ond trawyd pawb yn fud pan ymwthiodd lliwiau llachar y mosaig drwy bridd chwâl y gloddfa am y tro cyntaf.

Initially, there were those who even thought it might be a hoax,
I ddechrau, roedd rhai hyd yn oed yn credu mai twyll ydoedd,

Restricting freedom of movement will therefore mean that finding a job abroad becomes much harder for young people.

Bydd cyfyngu ar y rhyddid i symud, felly, yn golygu y bydd yn anoddach i bobl ifanc ddod o hyd i swydd dramor.

...it also tells us about the lifestyle and social pretensions of the owner of the villa

...mae hefyd yn cynnig gwybodaeth i ni am ffordd o fyw a dyheadau cymdeithasol perchennog y fila

In a statement, Roman expert Neil Holbrook explained...

Mewn datganiad eglurodd Neil Holbrook, arbenigwr ar y cyfnod Rhufeinig...

...mosaics of varying quality and preservation,
...mosaigau o safon a chyflwr amrywiol,

...what it can reveal about the inhabitants who commissioned it.

...a'r hyn y gall ei ddatgelu am y trigolion a'i comisiynodd.

...since it was so unlike anything that had ever turned up previously in the UK.

...gan ei fod mor annhebyg i unrhyw beth a ddarganfuwyd yn y DU cyn hynny.

Fodd bynnag, ochr yn ochr ag enghreifftiau fel y rhain, cafwyd hefyd enghreifftiau o gyfieithu lle nad oedd yr ymgeiswyr wedi dehongli ystyr y gwreiddiol yn llwyddiannus, e.e.:

...when amateur archaeologists...

...pan [ddarganfu] archeolegydd amatur...

...but characters and beasts from Roman myths can be clearly seen.

...ond gellir gweld yn glir y cymeriadau a'r bwystfilod o fythau Rhufeinig.

...there were those who even thought...

...cred rhai hyd yn oed...

...the ability to acquire a job could well be limited by visa requirements.

...mae'n gwbl bosibl y bydd y gallu i gael swydd yn rhwym dan ofynion fisa.

...particularly in the Netherlands and Germany.

...yn yr Iseldiroedd a'r Almaen yn bennaf.

...mosaics of varying quality and preservation,

...mosaigau o gadwraeth ac ansawdd amrywiol,

...since it was so unlike anything that had ever turned up previously in the UK.

...gan ei fod mor wahanol i unrhyw beth a ddadorchuddiwyd yn y DU o'r blaen.

...some young Britons have in the past chosen to study...

Mae rhai Prydeinwyr ifanc wedi dewis astudio...

...the dig had focused...

...mae'r gwaith cloddio wedi canolbwyntio...

But how will all that change now...

...a fydd hyn i gyd yn newid?

Dylasai darllen y gwaith yn fanwl cyn ei gyflwyno amlygu pob un o'r gwallau hyn, ac felly siom, braidd, yw gweld gwaith ymgeiswyr am Aelodaeth Gyflawn yn cael ei gyflwyno heb ei gywiro'n ddigonol.

Ar y llaw arall, braf yw gallu dweud nad oedd fawr ddim gwallau cystrawennol i'w gweld yng ngwaith y garfan hon o ymgeiswyr, er bod un yn amlwg yn cael trafferth gyda'r amheronol, fel y gwelir yn y ddwy enghraifft isod a gafwyd yn y sgrïpt dan sylw:

...so unlike anything that had ever turned up previously in the UK.

...mor annhebyg i unrhyw beth a'i canfuwyd yn y DU o'r blaen.

...what it can reveal about the inhabitants who commissioned it.

...a'r hyn y mae'n ei ddangos i ni am y trigolion a'i comisiynwyd.

Rhaid gofalu hefyd wrth ddefnyddio berfau megis 'effeithio' a 'cyfyngu' bod yr arddodiad 'ar' yn cael ei ddefnyddio'n gywir. Mae patrymau fel defnydd cywir o arddodiaid yn elfen bwysig o batrymau cynhenid y Gymraeg, ac er bod sawl un o'r patrymau hynny'n gwanhau erbyn hyn oherwydd dylanwad aruthrol y Saesneg, mae'n bwysig bod ymgeiswyr ar y lefel hon yn eu defnyddio'n gywir ac yn hyderus.

Yn naturiol, mae disgwyl i ymgeiswyr gael bod darnau ar y lefel hon yn heriol, a chafwyd bod sawl elfen yn peri trafferth i nifer, e.e. *vibrant colours*. Nid oedd cynigion fel **lliwiau bywiog/dirgrynol** mewn gwirionedd yn taro deuddeg, ond roedd **lliwiau llachar/byw** yn gyfieithiadau llwyddiannus, ac yn cadw at naws y gwreiddiol. Enghraifft yw hon o'r math o elfen lle mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn barod i osgoi cyfieithu'n llythrennol, a meddwl am yr hyn y mae'r gwreiddiol yn ceisio ei gyfleu. Enghraifft arall o hyn oedd *freedom of Europe*. Er bod sawl un wedi rhoi **rhyddid Ewrop**, nid oedd hynny mewn gwirionedd yn llwyddo i grisialu ystyr y gwreiddiol, ac roedd cynigion fel **rhyddid a gynigir gan Ewrop** yn llawer nes ati.

Gwaetha'r modd, cafwyd hefyd wallau cywirdeb yng ngwaith sawl ymgeisydd. Fel y nodwyd eisoes, ar y lefel hon mae disgwyl i'r gwaith a gyflwynir fod yn barod i'w gyhoeddi, felly siom oedd gweld enghreifftiau fel y canlynol yn y sgriptiau a gyflwynwyd i'r marcwyr:

sylweddol rhatach

Undeb Eropeaidd

diwydiannu penodol (yn lle *diwydiannau*)

aelodaeth Prydain â'r UE

un o'u canfyddiad pwysicaf hyd yma

i fagu berthynas agos

ffordd o fyd

y prosiect/safle cloddi

ar yr un telerau a dinasyddion lleol

Er nad oedd rhyw lawer o'r rhain, ac er bod dylanwad posibl nerfau mewn arholiad yn golygu na chafwyd yr un papur arholiad cwbl berffaith, ni ellir gorbwysleisio'r angen am wirio'r gwaith yn drylwyr cyn ei gyflwyno, i atal gwallau o'r math hwn rhag llithro trwy'r rhwyd.

Wrth gloi, felly, carwn estyn llongyfarchiadau gwresog i'r ymgeiswyr llwyddiannus, ac ar yr un pryd roi gair o anogaeth i'r rhai fu'n aflwyddiannus y tro hwn. Gobeithio y bydd iddynt ddal ati i fireinio'u sgiliau, gan fod y mwyafrif ohonynt yn agos iawn at lwyddo.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 2

Llwyddo: 1

Er bod pethau i'w canmol yng ngwaith y ddau ymgeisydd, dim ond un ohonynt, gwaetha'r modd, lwyddodd i gyrraedd y safon angenrheidiol i deilyngu Aelodaeth Gyflawn.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a welwyd yn y papurau:

...fy noson gyntaf yn rhannu tŷ...

...my first night in a house-share...

Roedd y manylion hyn... bron yn angof

These details... were a distant memory

...mewn rhannau helaeth o'r wlad

...across much of the country

...hanner awr yn unig cyn canlyniad tyngedfennol Caerfyrddin.

...only half an hour before the momentous result from Carmarthen.

O gofio pa mor wenwynig oedd y drafodaeth...

Given how toxic the debate was...

... yn ing y foment
...in the anguish of the moment

...nid yng ngwledydd Prydain yn unig
...not only on British soil

Enynnodd y digwyddiad erchyll hwnnw...
That terrible event sparked...

...ddefdfau mwy 'cynnil'
...more 'low-key' legislation

Bu gan feirdd Cymraeg swyddogaeth gymdeithasol bwysig...
Welsh poets have performed an important social function...

...phroblemau economaidd enbyd
...dire economic problems

Mae enghreifftiau fel y rhain yn dangos gallu'r ymgeiswyr i ymdeimlo â naws y gwreiddiol, a chyfleu'r ystyr a fwriadwyd, ac mae'r enghreifftiau a ddyfynnir yma yn dod o waith y ddau ymgeisydd, gan fod cryfderau amlwg yng ngwaith y ddau.

Fodd bynnag, gwaetha'r modd, cafwyd hefyd enghreifftiau o wallau ystyr a chywair ochr yn ochr â'r cyfieithu llwyddiannus, e.e.:

Enynnodd y digwyddiad erchyll hwnnw...
That terrible incident provoked...

(Nid yw 'incident' na 'provoked' yn addas o ran cywair yn y fan hon)

...ac i ofnau a safbwyntiau eu cymunedau
...and the worries and views of their communities
(yma eto, nid yw 'worries' yn addas o ran cywair)

... y 'werin ddiwylliedig'
...the 'cultural populace'
(gwaetha'r modd, ni chredaf y byddai'r dewis geiriol hwn yn ddealladwy o gwbl i'r darllenydd oni bai bod y Gymraeg yn dilyn mewn cromfachau i roi eglurhad)

...diffyg trafodaeth ar faterion Cymreig yn y cyfryngau;
...little media discussion of Welsh issues;

...wrth fesur llwyddiannau datganoli
...when discussing the success of devolution

...codi tâl am fapiau plastig
...the plastic bag charge

Gwaetha'r modd, mae enghreifftiau fel y rhain yn amharu ar lif naturiol cyfieithiad Saesneg, ac yn taro clust y darllenydd yn chwithig. Rhaid ceisio sicrhau bod y darnau a gyflwynir yn yr arholiad ar y lefel hon yn argyhoeddi'n llwyr fel Saesneg graenus, a hynny ar ben cyfleu ystyr y gwreiddiol, wrth gwrs. Yn naturiol, mae hynny'n dipyn o gamp, a da gweld un ymgeisydd yn llwyddo. Pwysig nodi eto yn y fan hon bod gwaith yr ail ymgeisydd hefyd yn cynnwys llawer o bethau da. Mae'n agos iawn at y lan, ac rwy'n mawr obeithio y bydd yn parhau i fireinio'n grefft, er mwyn llwyddo'r tro nesaf.

Fel mor aml o dan amodau arholiad, ni ellid honni bod hyd yn oed y gwaith llwyddiannus yn ddi-fai, ac felly carwn annog y ddau ymgeisydd i beidio â gorffwys ar eu rhwyfau, ond i barhau i ymdrechu i wella'u sgiliau'n barhaus, er mwyn adeiladu ar y sylfeini cadarn sydd ganddynt.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch unwaith yn rhagor i'r holl farcwyr ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Prif Arholwr.

Fiona Gannon
Rhagfyr 2017